# Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hybu'ch sgiliau a'ch profiad yn y diwydiannau creadigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i chi. Mae'n ymwneud â dysgu'r technegau a'r dulliau gweithio ynghyd â dysgu amdanoch chi'ch hun, y mathau o sgiliau rydych chi'n awyddus i'w datblygu a'r swydd yr hoffech chi fynd ymlaen i'w chyflawni.

Gellir defnyddio'r safon hon ynghlwm â phob rôl yn y diwydiannau sgrin ac mae hefyd yn berthnasol i rolau diwydiant creadigol ehangach fel enghraifft theatr, digwyddiadau byw, treftadaeth ddiwylliannol a galwedigaethau dylunio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cydnabod cyfleoedd i ddatblygu eich gwaith
2. adnabod y sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen i weithio’n ddigonol yn eich rôl chi
3. adnabod cydweithwyr a chysylltiadau y gallwch chi ddysgu ganddyn nhw a meithrin perthnasoedd gyda nhw
4. adnabod ffynonellau i ddysgu am adnoddau, technoleg, cyfarpar a thechnegau
5. ceisio adborth adeiladol am eich perfformiad a gwerthuso hyn i adnabod anghenion datblygu
6. gofyn cwestiynau i feithrin eich dealltwriaeth
7. gofyn am gymorth pan fyddwch chi’n ansicr ynghylch sut i gyflawni tasg neu beth sydd ei angen
8. canfod pwy sy’n gallu cynnig cymorth a chyngor dibynadwy fel bod modd i chi feithrin dealltwriaeth yn gyflym ac yn drylwyr
9. creu cyfleoedd i ddysgu am y gwaith a chynorthwyo gyda thasgau
10. dysgu am brotocolau, safonau, arferion, ac unrhyw adrannau neu brosesau eraill sydd ynghlwm a sut mae’r bobl eraill sydd ynghlwm yn cyflawni eu swyddi
11. cynnal eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun i ddiweddaru ac ychwanegu at eich sgiliau a’ch gwybodaeth
12. gosod ac adolygu amcanion ar gyfer anghenion hyfforddiant, perfformiad a chynnydd
13. adnabod y rolau swyddi posibl y gallech chi fod yn awyddus i’w cyflawni
14. adnabod y cam nesaf i ddatblygu eich gyrfa

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd datblygu eich sgiliau a sut gallai effeithio ar eich gyrfa
2. sut i wirio bod eich disgwyliadau gyrfa a dysgu yn realistig ac yn gyraeddadwy
3. sut i ddangos i eraill eich bod yn deall y pwysau a’r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â’r gwaith
4. sut a phryd i ofyn cwestiynau am bethau nad ydych chi’n eu deall
5. eich arddull dysgu eich hun
6. sut i asesu ansawdd gwaith fel ei fod yn bodloni safonau disgwyliedig y diwydiant
7. cynllun y gweithle, y bobl sydd ynghlwm a sut caiff gwahanol leoliadau a chyfleusterau eu cyfeirio atyn nhw
8. y ffynonellau gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd
9. y cyfarpar gallwch chi ei ddefnyddio a’r tasgau y byddwch chi’n cynorthwyo gyda nhw
10. sut i adnabod mentoriaid posibl a meithrin perthynas mentora cynhyrchiol
11. sut i reoli eich datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau eich bod yn meddu ar y sgiliau â’r wybodaeth ddiweddaraf

SKSCMGS2

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hybu'ch sgiliau a'ch profiad yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGS2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal anifeiliaid, Gweithwyr Proffesiynol Cynhyrchu Sain (Ffilm a Theledu), Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu, Y Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau, Gweithwyr Proffesiynol Gemau, Gweithwyr Proffesiynol Cyfryngau Rhyngweithiol, Galwedigaethau Marchnata Digidol, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio;, Gwasanaethau Technegol a Dosbarthu (Ffilm a Theledu), Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Corfforol, Rolau Cymorth Technegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Cyfres/Set** | Sgiliau Cyffredinol y Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | sgiliau; profiad; dysgu; cyfleoedd; datblygu; datblygiad proffesiynol parhaus; mentora; diwydiannau creadigol; |